06.01.2022

Heledd Williams
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880364

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Dathlu Cymreictod wrth ganu gydag arwyr

Dathlu Cymreictod fydd yn ganolog i raglen olaf y gyfres **Canu Gyda fy Arwr** (nos Sul 16 Ionawr). Y tro hwn, yn wahanol i'r arfer, cawn gwrdd â thri arwr gwahanol wrth i dri o bobl o bob cwr o Gymru a thu hwnt wireddu eu breuddwyd wrth gael cyd-ganu gyda nhw.

Bydd Rachel o Dreorci yn canu'r ddeuawd *O Gymru* gyda'i harwr, y tenor Trystan Llŷr Griffiths; y diweddar Miri Collard yn cael sypreis yng nghanol rali Cymdeithas yr Iaith gan Dewi Pws, a bydd Gwilym Bowen Rhys yn cael cwmni Hendrick yng Nghaerdydd.

Er bod Hendrick Robish wedi'i eni a'i fagu yn yr Almaen, mae e wedi dysgu Cymraeg, ac wrth ei fodd gyda Chymreictod a chaneuon Cymraeg – yn enwedig caneuon gwerin Gwilym Bowen Rhys.

"Mae diddordeb gyda fi a 'ngwraig yr Ynysoedd Prydeinig" meddai Hendrick. "Y tro diwethaf i ni ddod i Brydain, roedd un lle ar ôl i ymweld – Cymru. Felly nes i ddechrau dysgu pethau bach fel 'shwmae', 'sut wyt ti' a nes i jest ddim stopio. Dwi wedi cwympo mewn cariad gyda'r iaith".

Bydd Hendrick yn hedfan o Essen yng ngorllewin yr Almaen i Gaerdydd i gael cwrdd â chanu gyda'i arwr, Gwilym Bowen Rhys, a chaiff berfformio gyda phrosiect 'Plethu' Ysgol Fitzalan a Gwilym. Mae hi'n un o bum prosiect Eisteddfod T yr Urdd sy'n plethu'r gelfyddyd drwy greu perfformiadau newydd wedi'u harwain gan bobl ifanc, gan gyfluno diwylliannau amrywiol gyda thraddodiadau Cymreig.

Un sy'n hen gyfarwydd â pherfformio yw Rachel Stephens o Dreorci, sy'n cael ei henwebu gan ei ffrind Elis i ganu mewn lle arbennig iawn gyda'i harwr Trystan Llŷr Griffiths.

Mae Rachel, sydd wedi astudio cwrs Perfformio yng Ngholeg y Drindod wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu'r aelwyd yn ei milltir sgwâr, Cwm Rhondda, ac wedi creu effaith fawr ar y diwylliant Cymraeg yn ei hardal. Bydd hi'n wynebu'r her o ganu deuawd gyda Trystan o flaen 700 o bobl mewn cyngerdd yng Nghastell Caerdydd gyda Cherddorfa lawn y Welsh Pops yn gyfeiliant. Felly fydd y nerfau'n rhacs neu'r profiad yn un gwefreiddiol i Rachel? Fydd raid gwylio i weld!

**Canu Gyda fy Arwr**
**Nos Sul 16 Ionawr 8.00, S4C**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Cwmni Da ar gyfer S4C**

06.12.2022

Heledd Williams
Cyswllt Contact
03305 880364

**Erthygl i'r Wasg** Press Release

# Celebrating all things Welsh with singing idols

Celebrating all things Welsh will be central to the final programme of the series of **Canu Gyda fy Arwr** (Singing with my Hero) on Sunday 16 January. It's all change this week as three musical heroes help make the dreams of three people come true by performing alongside them. Rachel from Treorchy will sing a duet with her hero, tenor Trystan Llŷr Griffiths; the late Miri Collard gets a surprise from Dewi Pws at a Cymdeithas yr Iaith rally, and Hendrick travels all the way from Germany to sing with Gwilym Bowen Rhys.

Although Hendrick Robish was born and raised in Germany, he has learnt Welsh, and loves all things Welsh, especially Gwilym Bowen Rhys's folk songs:

"My wife and I are interested in the British Isles," says Hendrick. "The last time we came to Britain, there was one place left to visit – Wales. I started learning little sayings like 'shwmae' and 'sut wyt ti', and just couldn't stop. I have fallen in love with the language."

Hendrick flies from Essen, West Germany to Cardiff to meet and sing with Gwilym Bowen Rhys. They will both perform with pupils from Fitzalan School's Plethu Project, one of five Urdd Eisteddfod projects that intertwine the arts by creating new performances led by young people, combining diverse cultures with Welsh traditions.

Rachel Stephens from Treorchy is well used to performing. She was nominated by her friend Elis to sing in a very special location with her singing hero Trystan Llŷr Griffiths. Rachel, who has studied Performing Arts at Trinity College Carmarthen has been instrumental in developing the Aelwyd in the Rhondda Valley, and has made a huge impact on Welsh culture in her area. She will face the challenge of singing a duet with Trystan in front of 700 people at a concert in Cardiff Castle accompanied by the Welsh Pops Orchestra. So will the nerves wobble or will the whole experience be one big thrill for Rachel? You'll have to watch to find out!

**Canu Gyda fy Arwr**
**Sunday 16 January 8.00, S4C**
**English and Welsh subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Cwmni Da production for S4C**